

COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR Y 3YDD O FEHEFIN 2024

Yn bresennol:	Yr Is-gadeirydd Annest Smith.
Y Cynghorwyr:	Enid Roberts, Idwal Williams, Richard Davies, Llywarch Davies, Keith O'Brien, Hefin W. Jones.
Hefyd yn bresennol:	Karen Hughes (Swyddog Ariannol) Lona Williams (Clerc) Elfed Roberts (Cynghorydd Sir)
Ymddiheuriadau	A Huw Jones, Helen W Jones, Aron Roberts

2387 - COFNODION

Cyflwynwyd y cofnodion y 1af o Fai i'r cadeirydd a cytunwyd bod angen i'r clerch ychwanegu at fater 2252(3) - Cofeb Hedd Wyn bod £1000 wedi ei neilltuo gan Y Cyngor o ewyllys y diweddar Margaret Rees-Davies yn ogystal. Cytunwyd bod angen ychwanegu trafodaeth cynrychiolydd ar gwmni ynni Twrog ar gyfer materion ar gyfer y cyfarfod nesaf. Adroddwyd hefyd bod angen mireinio 2068(2) - Mynwent Pen Cefn a mai i Eric Edwards y gyrrwyd yr adroddiad ystlumod.

2388 - MATERION YN CODI O'R COFNODION

1401(3b) a 2191(1) - Garej Lôn – Adroddwyd bod gohebiaeth wedi dod cyngor ar ffurf tystiolaeth ar ddigwyddiadau sydd wedi bod yn mynd ymlaen yn y pentref. Cytunwyd i'r cyngor yrru llythyr o gefnogaeth yn cefnogi e-byst Mr Adrian Roberts, a gofyn i aelod o'r Heddlu ddod i gyfarfod y cyngor er mwyn trafod y mater. Adroddwyd hefyd bod ceir yn parcio'n anghyfreithlon yn y pentref ac yn rhwystro bysiau rhag pasio. Cytunwyd i yrru llythyr i Gyngor Gwynedd i ofyn i'r warden traffig ymweld ar pentref yn achlysurol yn ystod yr Haf.

1774(4) - Gardd Sylvia Crowe, Sgwar y Ddraig a'r Adeilad Man Gwyllo – Dim adroddiad pellach.

1842(2) a 1878(7) a 2024(4) - Cyflymder a Goleuadau Stryd Bronaber/ Damweiniau ar ffordd A470/A4212 – Adroddodd Elfed Roberts ei fod wedi cysylltu â Ken Skates o'r adran drafndiaeth yn ei wahodd i ymuno ar cyfarfod Cyngor ond ni ddebnyiodd ymateb eto. Mae Elfed hefyd wedi cysylltu â Delyth Edwards yr heddwes er mwyn canfod sawl damwain ddifrifol a di-ddifrifol sydd wedi digwydd ar y groesffordd y garej ond ni chafwyd ymateb hyd yma. Adroddodd Elfed hefyd ei fod wedi ysgrifennu at Meleri Mair Gryffydd o fudiad siwrna saff i'r ysgol i uno ffordd saff o'r Stesion i blant ac mae Meleri wedi cysylltu â Gwern Rhisiart pennaeth addysg ond nid oedd ymateb hyd yma. Cysylltodd Elfed â Communication road safety Wales, cafwyd ymateb i gysylltu a Rhian Williams er mwyn trafod diogelwch ffordd. Adroddodd Elfed Roberts ei fod yn parhau i ddisgwyl ymateb gan y canlynol.

1962(1) a 2138 - Adeiladau Cyhoeddus y Pentref – Adroddwyd gan y cyngorydd Hefin Jones ei fod wedi mynychu'r cyfarfod i drafod y neuadd a gafwyd ar y 7fed o Fai. Adroddwyd bod Rhys Davies wedi bod yn y cyfarfod i ddehongli'r cynlluniau. Adroddwyd eu bod eisiau gweld os yw'r pentref eisiau pahau gyda'r cais ond mewn modd gwahanol i'r cais gwreiddiol, Y bwriad yw i drefnu ail gyfarfod ond yn ansicr pa ddyddiad y bydd y cyfarfod hwn yn digwydd. Mynegwyd pryder am ba mor hir y gall yr adeilad barau yn ei gyflwr presennol a na fydd arian ar gael am oleiaf deunaw mis. Adroddwyd bod Adrian Roberts yn gadael y swydd a bod angen codi arian. Dywedwyd bod 6 mis i ail gyflwyno'r cais a phwysleiswyd bod angen talu sylw i'r adborth ar y cais gwreiddiol sef i gael rhagor o ymgysylltiad gyda'r gymuned. Cytunwyd i drafod ymhellach yn dilyn diweddariad y cyfarfod nesaf.

2068(2) - Mynwent Pen Cefn – Dywedwyd bod yr adroddiad wedi ei yrru i Eric Edwards. Adroddod y swyddog ariannol ei bod wedi gyrru nodyn i Eric i ofyn os yw'n fodlon parhau gyda'r gwaith ond heb dderbyn ateb eto.

2085(3) - Llys Ednowain – Adroddwyd bod y cyfreithwyr wedi ymateb i'r holiadur a bod rhagor o gwestiynau wedi dod yn ôl. Gofynwyd i'r cynghorwyr ail edrych ar y ddogfen er mwyn gweld pe baent yn medru ateb y cwestiynau a cytunwyd y byddai'r cynghorydd Hefin Jones yn ail yrru'r ddogfen yn ôl gyda diweddariad. Dywedwyd bod y cais cynllunio wedi ei dderbyn i gynnwys fferyllfa yn Llys Ednywain.

2099(6) - Marciau Gwyn y Pentref/Maes Parcio Bryn Glas – Adroddwyd bod y cadeirydd Hefin Jones wedi derbyn pris o £1203.00 i ail wneud y llinellau Gwyn gan Mr Rhys Williams. Penderfynwyd y byddai'r cynghorydd Elfed Roberts yn cysylltu â Cyngor Gwynedd er mwyn cadarhau pwy sydd piau'r tir a gofyn pe baen nhw fel cyngor yn mabwysiadu'r tir.

2229(7) - Lloches Bws Ty Gwyn – Adroddwyd y byddai'r e-bost yn cael ei yrru i Rhian Williams am y pedwerydd trog an nad oedd ymateb a bod Dafydd Gibbard y Prif weithredwr yn cael ei gopio yn yr e-bost.

2247(2) - Meinciau Gardd Salem – Adroddodd y Cynghorydd Enid Roberts nad oedd y meinciau heb gael eu rhoi y neu lle. Cytunwyd i yrru llythyr i Mr David Owen holi sut oedd y gwaith yn dod yn ei flaen a pha bryd y disgwyli'r gwaith gawl ei gwblhau.

2252(3) - Cofeb Hedd Wyn (Naomi Jones Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) – Adroddwyd gan y Cadeirydd Hefin Jones nad oedd adroddiad pellach.

2255(1) - Pont droed Llyn Trawsfynydd – Adroddwyd bod y cyfarfod ar y 3ydd o Fehefin wedi ei ohurio. a bod Elin Parry Jones yn aros i ni gynig dyddiad arall yn dilyn yr etholiad. Adroddwyd gan y cynghorydd Keith O' Brien wedi ymweld ar archifdŷ a'i fod wedi prynnu cytundeb rhwng y plwyf Trawsfynydd a'r North Wales Power Company. Rhanwyd dyfyniad o fewn y cytundeb bod y NWPC wedi cytuno i gadw'r bont yn ddiogel ac mewn cyflwr da a'i thrwsio pe bai diffygion, a phe bawn nhw ddim yn gwneud hyn bod gan y cyngor yr hawl i wneud y gwaith a bod y cwmni wedyn i dalu'r costau. Cytunwyd i yrru dyddiad arall ar gyfer cyfarfod â Elin Parry Jones yn dilyn yr etholiad.

2321(6) - Cae Chwarae Ty Llwyd – Cadarnhawyd fod cwmni Tir a choed wedi cael eu talu am wneud y gwaith.

2327(2) - Sedd Wâg – Adroddwyd bod e-bost wedi cael ei dderbyn gan Mrs Sarah Lock yn datgan ei diddordeb i ymuno ar cyngor.

Cytunwyd i ymateb yr e-bost i'w hysbysu fod y cyngor yn cymeradwyo'r cais.

2333(11) - Ffordd tu cefn i 1-6 Bro Prysor – Adroddwyd bod cwyn wedi dod i law gan un o drigolion y pentref gan bod contractwyr Adra wedi bod yn parcio ar dir preifat heb ganiatâd pan yn gweithio ar rif 5 Bro Prysor. Adroddwyd nad oedd mynediad i'w gael trwy'r ffordd gywir. Cytunwyd i yrru llythyr i Adra'n gofyn iddyn nhw sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto a beth mae nhw am wneud am y sefyllfa barhaus yma.

2334(1) - Gwefan y Cyngor – Adroddwyd bod Ceri o Gwe Cambrian wedi cysylltu i ofyn am luniau i roi ar y wefan. Cytunwyd y byddai Ceri yn cael ei chyfeirio at y cynghorydd Keith O'Brien er mwyn dewis lluniau i roi ar y wefan.

2365(1) – Y Fferyllfa - Derbynwyd e-bost gan Mr Adam Maccridge yn nodi bod angen aros i benderfyniad gael ei wneud cyn ein diweddaru.

2367(1) – Clirio Llys Ednowain – Adroddwyd nad oedd neb wedi cael llawer o gyfle i fynd yno yn ystod y mis a bod y gwaith clirio'n dal i barhau. Atgoffwyd eto bod angen i blac Hedd Wyn gael ei dynnu i lawr er mwyn i'w roi i'r pensaer Rhys Davies.

2367(2) – Safle Bws Maes Gwyndy – Dim ymateb i'r e-bost. Cytunwyd i ail yrru'r ohebiaeth ymlaen am y pedwerydd tro.

2367(4) - Ffordd o'r Chalets Bronaber i Penstryd- Cytunwyd i e-bostio Adrian Williams unwaith yn rhagor a chopio'r cynghorydd Elfed Roberts i'r e-bost.

2367(7) – Cwmni Egino – Gyrrwyd e-bost yn mynegi ein siom at Gwen Parry Jones a Vaughan Gething. Nid oedd ymateb hyd yma.

2379(2) Drain ar ffordd Stesion - Cytunwyd i e-bostio Adrian Williams i ofyn i'r cyngor wneud y gwaith a chopio'r cynghorydd Elfed Roberts yn yr e-bost.

2379(3) 6 Bro Islyn a 22 Cefn Gwyn -Adroddodd y cynghorydd Elfed Roberts bod 6 Bro Islyn wedi ei ddefnyddio fel cartref i blentyn mewn gofal ac yn arbennig i blant y neu harddegau. Does neb wedi bod yn y cartref ers y 10fed o Ebrill. Doedd dim adroddiad pellach am 22 Cefn Gwyn. Penderfynwyd i'r cynghorydd Elfed Roberts ofyn am restr o'r tai sydd yn cael eu defnyddio yn Nhrawsfynydd fel tai ar gyfer plant mewn gofal.

2379(4) Bryn y Gofeb - Adroddwyd bod y clerc wedi ceisio cysylltu â Dafydd Morris ond heb gael ateb. Cytunwyd i yrru llythyr i Dafydd Morris.

2381 – Ethol Swyddogion – Cytunwyd bod yn rhaid ethol Cadeirydd yn y cyfarfod nesaf gan bod 3 cynghorydd yn absenol o'r cyfarfod.

2389 – GOHEBIAETH

- (1) Cais Cynllunio – NP5/78/15D – Codi adeilad amaethyddol uwchben storfa dail bresennol Bryn Celynog, Cwm Prysor, Trawsfynydd. LL414TR.

2390 - ADRODDIAD ARIANNOL

- (1) Derbyniwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol a gyflwynwyd gan y Swyddog Ariannol. Adroddwyd bod angen 3 cynghorydd i gadarnhau pob taliad. Cytunwyd bod y cynghorydd Hefin Jones yn fodlon arwyddo anfonebau.

2391- MATERION I'W TRAFOD AR Y PRYD

- (1) Toiledau cyhoeddus- Adroddwyd bod oriau toiledau'r fel a ganlyn 8:30-5:30 yh. Cytunwyd i yrru e-bost i'r cyngor yn holi os mai rhain yw'r oriau craidd ym mhob man.
- (2) Adroddwyd bod talpiau o darmac ar goll o'r ffordd ym Mhen y Garreg, wrth ymyl Bryn Dedwydd a siop Glyndŵr. Cytunwyd i ail e-bostio Adrian Williams a chopio'r cyngorydd Elfed Roberts i mewn i ofyn pe bai yn edrych ar y pentref ac yn benodol ar y safleoedd canlynol.
- (3) Adroddwyd bod draenan ddu yn tyfu o dir Gareth Roberts wedi gor-dyfu ac angen ei thorri'n ôl. Cytunwyd i gysylltu a Adrian Williams er mwyn trefnu hyn
- (4) Adroddwyd bod Mooring number 1 yn orlawn ar benwythnosau gyda cerbydau sy'n aros yno dros nos. Cytunwyd i yrru llythyr i Andy McAteer i dynnu sylw at y mater a ein bod yn pryderu os oes gwastraff yn cael ei roi yn y llyn a bod y bar metel wedi cael ei dorri.

2392 - MATERION AR GYFER Y CYFARFOD NESAF

- (1) Enwebu cynrychiolydd ar gyfer cwmni Ynni Twrog.

2393 – ADRODDIADAU O'R CYFARFODYDD YN YSTOD Y MIS

- (1) Un llais Cymru - Adroddodd y Cynghorydd Hefin Jones ei fod wedi bod mewn cyfarfod ar yr 8fed o Fai. Dywedodd Jeff Harvey yn y cyfarfod bod 3 mil o lythyrrau sy'n cyfeirio pobl a phlant at arbenigwyr meddygol wedi mynd ar goll gan yr GIG. Dywedodd bod Mel ap Owen wedi adrodd y dylent archwilio i gael 2 berson i arwyddo anfonebau . Dywedwyd bod cytundeb clercod ar gael o'r newydd a hefyd templed Rheolau Ariannol o'r newydd.

CYFARFOD NESAF 3ydd o Orffennaf 2024